Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L1 a chyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (WGC 006/2024)

Cyhoeddi diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 (Anheddau) rhifyn 2022, a chyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

Cylchlythyr

Cyflwyniad

Cwmpas

Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L cyfrol 1 rhifyn 2022

Y trefniadau pontio

Dogfennau Cymeradwy

Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022 - Cwestiynau Cyffredin

Rhagor o wybodaeth

Ymholiadau:

Atodiad A



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

**Rhif y cylchlythyr**: WGC 006/2024

**Dyddiad cyhoeddi**: 14/05/2024

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**: Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L1 a chyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O

**Cyhoeddwyd gan:** Paul Keepins, Rheolwr Technegol Safonau Adeiladu

**Ar gyfer:**

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas yr Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol

**I'w anfon ymlaen at:**

Swyddogion Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol
Aelodau Senedd Cymru

**Crynodeb:**

Cyhoeddi diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 (Anheddau) rhifyn 2022, a chyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu
2il Llawr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llinell uniongyrchol: 0300 060 4400

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **Adeiladu a chynllunio**

# Cylchlythyr

## Deddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu 2010

Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 - Anheddau (Arbed Tanwydd ac Ynni) rhifyn 2022.

Cyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022.

# Cyflwyniad

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at gyhoeddi diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 2022, a chyhoeddi dogfen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cwestiynau cyffredin ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (rhifyn 2022).

2. Daw'r Dogfennau Cymeradwy diwygiedig i rym ar 31 Mai 2024 yn yr amgylchiadau a nodir yn yr hysbysiad ffurfiol o gymeradwyaeth yn Atodiad [A] i'r Cylchlythyr hwn.

3. Diben y Cylchlythyr hwn yw gwneud y canlynol:

- cyhoeddi y newidiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 (Anheddau) rhifyn 2022
- tynnu sylw at ddarpariaethau trosiannol ar gyfer y newidiadau uchod
- tynnu sylw at y ddogfen cwestiynau cyffredin newydd ar gyfer Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022.

4. Nid yw'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar ofynion technegol Rheoliadau Adeiladu 2010 gan fod Dogfennau Cymeradwy yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Cwmpas

5. Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru.

## Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L cyfrol 1 rhifyn 2022

6. Mae'r Dogfennau Cymeradwy yn darparu canllawiau statudol ar gymhwyso a chydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Mae slip diwygio, “Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L”, yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r Cylchlythyr hwn ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r slip diwygio yn cywiro camgymeriadau sydd wedi'u nodi ers cyhoeddi'r ddogfen gymeradwy (corrigenda).

## Y trefniadau pontio

7. Daw'r diwygiadau i'r ddogfen gymeradwy i rym ar 31 Mai 2024.

   Nid yw'r diwygiadau'n gymwys mewn unrhyw achos lle y mae hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi i awdurdod lleol, neu os oes cynlluniau llawn wedi'i hadneuo gyda hwy, a bod y gwaith adeiladu y maent yn gysylltiedig a hwy naill ai:

   (a) wedi dechrau cyn y diwrnod hwnnw; neu

   (b) yn dechrau o fewn y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

## Dogfennau Cymeradwy

8. Mae Atodiad A i'r Cylchlythyr hwn yn rhoi'r Hysbysiad Cymeradwyo ar gyfer y diwygiadau i'r Ddogfen Gymeradwy.

## Dogfen Gymeradwy O (Gorgynhesu) rhifyn 2022 - Cwestiynau Cyffredin

9. Daeth Dogfen Gymeradwy O (rhifyn 2022) i rym ar 23 Tachwedd 2022, ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer lleihau'r risg o orboethi mewn adeiladau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

preswyl newydd. Mae dogfen Cwestiynau Cyffredin wedi'i chyhoeddi bellach ar wefan Llywodraeth Cymru, sydd ar gael ar: **Canllawiau ar reoliadau adeiladu: rhan O (gorgynhesu)**

## Rhagor o wybodaeth

10. Mae copiau o'r slip diwygio a'r cylchlythyr ar gael ar: **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-adeiladu**

## Ymholiadau:

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Cylchlythyr hwn i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

E-bost **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir,

**Mark Tambini**

**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad A

## Deddf Adeiladu 1984

### Hysbysiad cymeradwyo diwygiadau i ddogfennau sy’n rhoi canllawiau ymarferol mewn perthynas â gofynion Rheoliadau Adeiladu 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau a nodir o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau i'r Dogfennau Cymeradwy a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru yn unig.

Daw y diwygiadau i rym ar 31 Mai 2024 ac eithrio mewn perthynas â gwaith a fydd wedi dechrau cyn y dyddiad hwnnw neu mewn perthynas â gwaith y mae hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi'i roi ar ei gyfer neu y mae cynlluniau llawn wedi'u hadneuo ar ei gyfer cyn y dyddiad hwnnw ac ar yr amod bod gwaith yn dechrau o fewn y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

#### Dogfen Gymeradwy

Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 - (Arbed tanwydd ac ynni) rhifyn 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Gofynion y Rheoliadau Adeiladu y caiff y ddogfen ei chymeradwyo mewn perthynas â hwy**

Rhan L o Atodlen 1

**Y dyddiad y daw'r diwygiad i rym**

31 Mai 2024

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfen-gymeradwy-l1-chyhoeddi-dogfen-cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-dogfen-gymeradwy-o** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.